Ysgol Penrhyn-coch

Ar hyn o bryd mae ein cogyddes Mrs J. Pugh yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Bronglais. Dymunwn adferiad buan iddi. Croesawn Mrs Roberts o Aberystwyth yma i lanw'r bwlch. Braf yr un pryd yw cael estyn croeso i ddau ddisgybl newydd a ddaeth atom o Yateley. Yn Nhan-y-berth y mae Gari a Kelly Jones yn byw. Dymunwn y gorau i Rhodri Jones sydd wedi ffarwelio a ni. Gobeithio bydd y teulu bach yn hapus yn eu cartref newydd yng Nghwmerfyn.

Croeso hefyd i ddau fyfyriwr sydd gennym yn gwneud cyfnod o Ymarfer Dysgu ar hyn o bryd. O Gaerdydd y daw Miss Ann Fairhurst ac y mae Mr Geraint Hughes o Bwllheli. Y mae'r ddau'n fyfyr-wyr yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.

Braf yw gweld y merched yn cael cymaint hwyl wrth chwarae hoci ac yn edrych ymlaen i'r gem ar fore Sadwrn. Mae'r bechgyn hefyd yn gwneud yn dda iawn gyda'r bel droed. Byddant wrth eu bodd yn ymarfer ac yn llawn hwyl ar fore Sadwrn waeth beth ydyw'r canlyniadau. Da iawn chwi i gyd!

Ym Mhenrhyn-coch y bu cwis yr Urdd eleni. Dechrau Tachwedd daeth deg tim i gystadlu i'r ysgol a chafwyd hwyl arbennig ar yr holi ar ateb. Yr oedd y gystad-leuaeth yn agored i holl glybiau cylch Aberystwyth a hyfryd oedd cael croesawu timoedd o ysgolion Llanafan, Llanfihangel y Creuddyn, Pen-llwyn, Llanilar, Rhydypennau, Tal-y-bont, Yr Ysgol Gymraeg, Aberystwyth ac Ysgol Penrhyn-coch wrth gwrs. Da yw gweld plant yn cymdeithasu a'u gilydd fel hyn a thrwy hynny ddod i adnabod eu gilydd yn well. Cawsom nosweith-iau difyr yn y clwb yn ystod y mis.

Bydd y Nadolig yma mewn byr dro ac mae'r plant eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y Gwas-anaeth o Naw Llith a Charol a gynhelir eleni ar nos Fawrth y 15fed o Ragfyr, Rydym yn siwr y cawn unwaith eto gefnogaeth pobl dda Penrhyn-coch a'r cylch.